Tŷ Afon, Ffordd Bedwas
Bedwas, Caerffili,
CF83 8WT

Tŷ Afon, Bedwas Road
Bedwas, Caerphilly
CF83 8WT

www.hefcw.ac.uk

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

Senedd Cymru
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cyllid datblygu rhanbarthol wedi'r UE
RDF08
Ymateb gan: Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Welsh Parliament
Economy, Trade, and Rural Affairs Committee
Post-EU regional development funding
Evidence from: Higher Education Funding Council for Wales

20 Ebrill 2023

**Ymgynghoriad: Trefniadau cyllido ar ôl gadael yr UE**

Mae CCAUC yn croesawu'r cyfle i roi ei farn i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ynglŷn â chyllid datblygu rhanbarthol wedi'r UE. Rydym wedi llunio ein hymateb o safbwynt ein rôl fel y corff cyhoeddus sy'n gweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a darparwyr addysg uwch. Rydym yn rheoleiddio ac yn darparu cyllid ar gyfer addysgu ac ymchwil addysg uwch, ac yn defnyddio ein dylanwad a'n harbenigedd i helpu i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch sydd hefyd yn dwyn manteision cymdeithasol ac economaidd ehangach. Mae ein hymateb yn canolbwyntio'n bennaf ar oblygiadau posibl Cronfa Ffyniant Gyffredin a Chronfa Ffyniant Bro'r DU ar gyfer gweithgareddau ymchwil ac arloesi ym mhrifysgolion Cymru.

**Pa mor effeithiol oedd Cronfeydd Strwythurol yr UE o ran trawsnewid economi Cymru?**

Roedd y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn ffynhonnell bwysig o ran cyllid ar gyfer gweithgareddau ymchwil ac arloesi ym mhrifysgolion Cymru. Cafodd Cymru fudd o fwy na £2.1bn o gyllid o raglenni'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn ystod y cyfnod o 2014-2020, y defnyddiwyd dros £300 miliwn ohono i gefnogi prosiectau ym mhrifysgolion Cymru.

Fe gefnogodd y cyllid ystod o weithgareddau gan gynnwys darpariaeth gyfalaf (adeiladau ac offer); mynediad at gyfleusterau arbenigol ac arbenigedd ar gyfer mentrau bach a chanolig (MBChau); ymchwil gydweithredol; darparu hyfforddiant arbenigol; a phrofiad gwaith i raddedigion. Yn arbennig, fe wnaeth y cyllid alluogi prifysgolion i gydweithio'n fwy effeithiol gyda'r gymuned MBChau, sef asgwrn cefn economi Cymru.

Enghraifft dda o effaith economaidd uniongyrchol yw prosiect ASTUTE 2020, a oedd yn brosiect cydweithredol rhwng 4 o brifysgolion Cymru (Prifysgol Abertawe, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant). Fe wnaeth y

prosiect alluogi MBChau yn sector gweithgynhyrchu Cymru i gael mynediad at arbenigedd ac offer mewn prifysgolion a oedd yn bartneriaid i gefnogi datblygiad cynhyrchion a gwasanaethau newydd. Daeth y gwerthusiad terfynol o'r prosiect i'r casgliad bod gwaith ASTUTE wedi creu effaith economaidd o fwy na £200m yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, ac wedi dwyn adenillion neilltuol o fwy nag £8 o effaith economaidd am bob £1 a fuddsoddwyd.

Enghraifft arall o effaith gymdeithasol oedd Rhaglen GO Wales a gyllidwyd yn rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) ac a oedd yn weithredol dros Gymru benbaladr. Partneriaeth rhwng Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a phrifysgolion yng Nghymru (Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe, Y Brifysgol Agored yng Nghymru, Prifysgol De Cymru, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam) oedd y Rhaglen. Roedd wedi'i bwriadu i gefnogi cyflogadwyedd myfyrwyr ifainc ar gyrsiau addysg uwch yng Nghymru ac wedi'i hanelu at fyfyrwyr ifainc a oedd wedi wynebu rhwystrau i fynediad at addysg uwch neu brofiad gwaith ac a oedd yn wynebu'r risg fwyaf o beidio â sicrhau cyflogaeth, addysg na hyfforddiant pan fyddent yn gadael eu cwrs addysg uwch. Fe drefnodd y rhaglen bron i 3,000 o gyfleoedd profiad gwaith i fyfyrwyr addysg uwch (AU) ifainc a oedd yn wynebu risg o ddod yn NEET (rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant) ar ôl gadael AU.

**Sut fydd y cyllid y bydd Cymru'n ei gael trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a gweddill Cronfeydd Strwythurol yr UE yn cymharu â lefel y cyllid a dderbyniodd Cymru trwy'r Cronfeydd Strwythurol tra'r oedd y DU yn aelod o'r UE ac unrhyw gyllid posibl y gallai fod ei gael trwy'r rhaglen Cronfeydd Strwythurol nesaf?**

Fe wnaeth y £2.1bn yma o Gronfeydd Strwythurol yr UE ar gyfer y cyfnod o 2014-2020 alluogi sefydliadau cyhoeddus, addysg uwch a phellach, busnesau a mudiadau gwirfoddol i gyflawni ystod eang o weithgareddau i helpu i adfywio trefi a chymunedau, tyfu economi Cymru a chreu swyddi.

Fe gyrhaeddodd buddsoddiad ar y cyfan o gronfeydd yr UE mewn ymchwil ac arloesi yn y sectorau cyhoeddus a phreifat dros £500 miliwn. Fe elwodd prifysgolion Cymru'n fawr o'r cyllid a hwythau wedi arwain prosiectau gwerth dros £300 miliwn ers 2014. Mae disgwyl hefyd i brosiectau a gyllidwyd gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop godi £230 miliwn ychwanegol mewn cyllid ymchwil ac arloesi cystadleuol i gefnogi nifer o brosiectau sy'n dod â phartneriaid busnes ac academaidd ynghyd i drosi ymchwil academaidd yn weithgarwch arloesi cynnyrch.

Defnyddiwyd Cronfeydd Strwythurol yr UE hefyd i gadw a datblygu talent gyda thros £860m wedi'i fuddsoddi mewn prosiectau sgiliau a chyflogadwyedd. Mae'r buddsoddiad hwn wedi bod yn uwch na'r targed cychwynnol o fwy na 100,000 o brentisiaethau pob oed, o ansawdd da ac wedi creu mwy na 21,000 o hyfforddeiaethau gyda chyflogwyr ledled Cymru.

Er mai Llywodraeth Cymru oedd yn gyfrifol am gyflwyno'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, caiff y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Ffyniant Bro eu gweinyddu gan Lywodraeth y DU. Dyrannwyd £585 miliwn i Gymru dros y tair blynedd ariannol nesaf o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU sy'n werth £2.6 biliwn. Mae hyn yn ychwanegol at gyllid

ffyniant bro arall ar gyfer Cymru, gan gynnwys y Gronfa Perchnogaeth Gymunedol a'r Gronfa Ffyniant Bro, sydd eisoes wedi buddsoddi £121m yng Nghymru, a £790 miliwn ar gyfer bargeinion dinesig a thwf.

Ar lefel Bargeinion Dinesig a Thwf, dyrannwyd £279 miliwn i awdurdodau lleol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd tan 2024-25, gyda £138 miliwn yn mynd i awdurdodau lleol yn ardal Bae Abertawe, £126 miliwn yn mynd i Ogledd Cymru a £42 miliwn yn mynd i Ganolbarth Cymru.

Er ei bod hi'n anodd iawn cymharu union lefel y cyllid y byddai Cymru wedi'i gael pe bai wedi aros yn yr Undeb Ewropeaidd, mae'r newidiadau yn y ffordd y gweinyddir y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn debygol o arwain at ostyngiadau sylweddol yn swm y cyllid a ddyrennir i gefnogi gweithgareddau ymchwil ac arloesi ym mhrifysgolion Cymru.

**Pa elfennau o'r ddwy gronfa newydd sydd wedi gweithio'n dda hyd yma, a pha rai sydd wedi bod yn llai effeithiol. Pa wersi y gellid eu dysgu ar gyfer y dyfodol er mwyn sicrhau bod yr arian yn cael yr effaith fwyaf bosibl?**

Ni fu gan CCAUC unrhyw ymwneud uniongyrchol â Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU na'r Gronfa Ffyniant Bro ac nid yw'n gallu gwneud sylwadau.

**I ba raddau y mae'r cronfeydd yn llwyddo i adnabod a chefnogi'r cymunedau ac ardaloedd yng Nghymru sydd â'r angen mwyaf? Sut mae gwasgariad daearyddol y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Ffyniant Bro yn cymharu â'r Cronfeydd Strwythurol?**

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) arferai fod yn gyfrifol am gyflwyno'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ar ran Llywodraeth Cymru. Roedd cyllid yn cael ei ddyrannu'n rhanbarthol gyda Chymru wedi'i rhannu'n ddau ranbarth at ddibenion datblygu'r UE: Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, a Dwyrain Cymru. Roedd y cyntaf wedi'i ddynodi'n un llai datblygedig gan yr UE (am bod Cynnyrch Domestig Gros yn llai na 75% o gyfartaledd yr UE) ac roedd felly'n gymwys i gael cyllid o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), ond roedd yr ail (sy'n cynnwys Caerdydd, Sir Fynwy, Powys a Wrecsam) yn perthyn i ddosbarth y rhanbarthau mwy datblygedig (roedd ei Gynnyrch Domestig Gros yn 90% o gyfartaledd yr UE) ac felly nid oedd yn gymwys i gael y cyllid hwnnw.

Er bod gan y ddau ranbarth yng Nghymru gyfraddau ymyrryd gwahanol, mae'n bwysig nodi bod llawer o'r prosiectau ymchwil ac arloesi a gyflawnwyd trwy'r Cronfeydd Strwythurol yn rhai dros Gymru benbaladr a'u bod yn mynd ati'n frwd i hybu cydweithio rhwng prifysgolion Cymru. Er enghraifft, fe wnaeth prosiect Ysgoloriaeth Sgiliau'r Economi Wybodaeth (KESS) gwerth £33 miliwn a arweiniwyd gan Brifysgol Bangor gefnogi cymwysterau doethuriaeth, MPhil a gradd meistr ymchwil yn holl brifysgolion Cymru.

Tra bo Cronfeydd Strwythurol yr UE wedi cael eu gweinyddu'n ganolog, bydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cael ei darparu ar lefel ranbarthol, ledled pedair ardal y Bargeinion Dinesig a Thwf – Prifddinas-Ranbarth Caerdydd/De Ddwyrain Cymru; Canolbarth Cymru; Gogledd Cymru; De Orllewin Cymru / Bae Abertawe. Fe benododd pob

rhanbarth awdurdod lleol i baratoi cynllun buddsoddi yn seiliedig ar gyfleoedd a heriau lleol sy'n berthnasol i dair blaenoriaeth fuddsoddi'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (Cymunedau a Lles; Cefnogi Busnesau Lleol; Pobl a Sgiliau), ac i fynd ati wedyn i adnabod y deilliannau a'r ymyriadau sy'n mynd i'r afael â'r heriau hynny yn y ffordd orau. Cafodd y cynlluniau buddsoddi hyn eu cymeradwyo wedyn gan Lywodraeth y DU.

Gallai'r cyllid gael ei ddefnyddio i fynd i'r afael ag amrywiaeth eang o weithgareddau megis adfywio strydoedd mawr sydd wedi mynd â'u pen iddynt, brwydro yn erbyn ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau, neu helpu mwy o bobl i gael gwaith – gan helpu i adfywio cymunedau, mynd i'r afael â dirywiad economaidd a gwrthdroi anghyfartaleddau daearyddol yng Nghymru a ledled y DU. Rydym yn deall bod Llywodraeth y DU wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i adnabod 53 o ymyriadau penodol sy'n gyson â thair blaenoriaeth fuddsoddi'r gronfa. Yng Nghymru, roedd y cynlluniau hyn hefyd yn ystyried Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru a blaenoriaethau strategol eraill.

Ychydig iawn o gyfeirio sydd at rôl ymchwil ac arloesi, ac addysg uwch yn fwy cyffredinol, yn y 53 o ymyriadau y cytunwyd arnynt. Dim ond ychydig ohonynt sy'n ymwneud ag ymchwil ac arloesi ac nid yw'r un ohonynt yn sôn yn benodol am gydweithio gyda phartneriaid sy'n brifysgolion. O ystyried blaenoriaethau amrywiol awdurdodau lleol a'u ffocws dealladwy ar flaenoriaethau lleol iawn, ychydig o gymhelliad sydd i gefnogi prosiectau dros Gymru benbaladr sy'n gyson â blaenoriaethau strategol cenedlaethol. Gan hynny, mae prifysgolion yn annhebygol iawn o gael cymorth ar yr un lefel a'r un raddfa â'r hyn a oedd ar gael trwy Gronfeydd Strwythurol yr UE.

Mae hyn yn her fawr i brifysgolion, gan bod cyllid yr UE yn flaenorol wedi galluogi Cymru i ddatblygu partneriaethau cryfion ac ystod eang o weithgareddau ymchwil a oedd yn mynd i'r afael â llawer o heriau cymdeithasol allweddol, megis newid hinsawdd, diogeledd bwyd, lleihau allyriadau carbon a hybu economi gylchol.

**Pa fathau o ymyriadau a ddarperir ac a ddylunnir trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, ac i ba raddau y mae'r rhain yn wahanol i'r rhai a ddarparwyd trwy'r Cronfeydd Strwythurol?**

Roedd y dull canolog o ddyrannu'r Cronfeydd Strwythurol yn ei gwneud yn bosibl datblygu prosiectau cydweithredol, mwy strategol a oedd yn fwy o faint dros Gymru benbaladr a'r rheiny'n adeiladu ar gryfderau ymchwil ac arloesi prifysgolion Cymru.

Er enghraifft, roedd y prosiect SEACAMS gwerth £27 miliwn yn brosiect cydweithredol rhwng Prifysgolion Bangor, Aberystwyth ac Abertawe i ddatblygu economi ac amgylcheddau morol arfordirol Cymru a chefnogi cyfleoedd economaidd mewn Carbon Isel, Ynni a'r Amgylchedd trwy ymchwil ac arloesi yn ynni adnewyddadwy'r môr a'r economi forol ehangach.

Roedd prosiectau o'r fath a gyflawnwyd ym mhrifysgolion Cymru'n rhan o system ymchwil ac arloesi ac iddi enwogrwydd byd-eang. Yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diwethaf yn 2021, perfformiodd Cymru'n gryf gyda 31% o'r ymchwil yn cael ei

hystyried yn flaenllaw yn fyd-eang, gyda 50% arall ohoni'n cael ei hystyried yn rhagorol yn rhyngwladol. O ran effaith, aeth prifysgolion Cymru y tu hwnt i gyfartaledd y DU (87%) gydag 89% yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn cael effaith neilltuol neu sylweddol iawn ar gymdeithas. Roedd y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn brif gyllidwr gweithgareddau ymchwil ac arloesi yng Nghymru ac yn ffactor allweddol ar gyfer cyflawni ymchwil o ansawdd da a oedd yn cael effaith ar gymdeithas yn ogystal â chynnal cystadleurwydd ar y cyfan gyda rhannau eraill o'r DU.

Mae nifer o astudiaethau (gan gynnwys Adolygiad Reid o Ymchwil ac Arloesi yng Nghymru ac Adolygiad Nurse o Dirwedd Sefydliadol y DU ar gyfer Ymchwil, Datblygu ac Arloesi) wedi amlygu pwysigrwydd cydweithio rhwng prifysgolion, diwydiant a phartneriaid eraill fel un o'r ysgogiadau allweddol ar gyfer arloesi a gwella ansawdd ymchwil. Mae'r gweithgareddau ymchwil ac arloesi a gyflawnir ym mhrifysgolion Cymru'n rhan o ecosystem ehangach, sy'n cael budd gwirioneddol o gydweithio a phartneriaethau, yng Nghymru, ond hefyd ledled y DU a'r tu hwnt.

Yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, fe lansiodd Llywodraeth Cymru Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru i roi arweiniad wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â dyrannu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Yn ystod yr ymgynghoriad cychwynnol, roedd CCAUC yn gefnogol i'r syniad o gydlynu strategol ar lefel genedlaethol a fyddai'n cael ei ategu gan drefn o gyflawni trwy gyrff rhanbarthol dynodedig. Mae buddsoddiadau mewn ymchwil, arloesi ac ymgysylltu, a datblygu sgiliau, yn ganolog i ffyniant economaidd a chymdeithasol ledled Cymru, a chan hynny, mae'n well eu bod yn cael eu cyflawni fel rhan o weledigaeth genedlaethol gan sicrhau ar yr un pryd y cynhelir ffocws a chefnogaeth eglur ar lefelau rhanbarthol a lleol.

Roedd y dull canolog o reoli Cronfeydd Strwythurol yr UE yn cefnogi prosiectau cydweithredol dros Gymru benbaladr ac yn galluogi sefydliadau addysg i ymgysylltu â sefydliadau o bob rhan o Gymru. Er bod Llywodraeth y DU wedi annog rhanbarthau i gydweithio pan fo'n well i ymyriadau gael eu cyflawni ar raddfa fwy, mae'r math o weithgareddau ymchwil ac arloesi a gefnogwyd yn flaenorol gan Gronfeydd Strwythurol yr UE yn annhebygol o gael ei flaenoriaethu gan ei bod yn bosibl na fydd y manteision yn gyson â rhai pob awdurdod lleol.

**I ba raddau y mae'r prosesau a'r amserlenni a bennir gan Lywodraeth y DU ar gyfer y cronfeydd o gymorth i awdurdodau lleol a rhanbarthau gyflawni'r canlyniadau a fwriedir ganddynt?**

Mae'r prosesau ac amserlenni a bennwyd gan Lywodraeth y DU wedi bod yn gryn her gan bod rhaid gwario'r cyllid erbyn mis Mawrth 2025.

Er bod llawer o brifysgolion eisoes yn cydweithio'n agos gyda'u hawdurdodau lleol ar ddatblygu prosiectau newydd, mae lefel yr ansicrwydd a'r ffrâm amser fer yn gryn her. Mae hefyd yn werth nodi bod yr amser paratoi'n aml yn gallu bod yn sylweddol wrth ddechrau prosiectau newydd oherwydd materion recriwtio staff, caffael neu faterion gweithredol eraill.

**Pa mor effeithiol y mae'r gwahanol lefelau o lywodraethu yng Nghymru yn cydweithio mewn perthynas â'r cronfeydd hyn?**

Nid yw CCAUC yn rhan o weinyddu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ond mae'n darparu dros £100 miliwn y flwyddyn i gefnogi gweithgareddau ymchwil ac arloesi ym mhrifysgolion Cymru.

**Pa heriau a chyfleoedd y mae'r ffrydiau cyllido hyn yn eu darparu ar gyfer sefydliadau a gafodd gyllid o'r Cronfeydd Strwythurol?**

Er bod y Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi'i bwriadu i ddisodli Cronfeydd Strwythurol yr UE, mae datganoli'r cyfrifoldeb am weinyddu'r gronfa i gynghorau lleol a rhanbarthau wedi achosi heriau difrifol i brifysgolion. Nod y gronfa yw mynd i'r afael ag anghyfartaleddau economaidd rhanbarthol trwy ystod eang o ymyriadau ond ychydig iawn o gydnabyddiaeth sydd i ymchwil ac arloesi gan brifysgolion fel ffactorau sy'n ysgogi twf economaidd. Mae prifysgolion yng Nghymru'n asedau cenedlaethol, gydag effaith eu gweithgareddau ymchwil ac arloesi'n cael ei chydnabod yn rhyngwladol. Maent yn gyfranwyr allweddol yn eu rhanbarthau a'u bröydd hefyd, trwy ddatblygu sgiliau gwerth-uchel sy'n cefnogi cyflogadwyedd ac yn diwallu anghenion yr economi.

Bydd buddsoddiadau mewn ymchwil, arloesi ac ymgysylltu, a datblygu sgiliau, yn ganolog i ffyniant economaidd a chymdeithasol ledled Cymru, a chan hynny, byddant yn rhan o weledigaeth genedlaethol, ond rhaid bod ffocws a chefnogaeth eglur ar lefelau rhanbarthol a lleol hefyd.

Mae Gweledigaeth CCAUC ar gyfer Ymchwil ac Arloesi'n canolbwyntio ar bedwar conglfaen, gan gynnwys 'lle'. Bydd cefnogaeth gref sy'n seiliedig ar le i gapasiti ymchwil ac arloesi yng Nghymru'n hybu llwyddiant ac yn galluogi Cymru i ddenu mwy o gyllid allanol gan sefydliadau y tu allan i Gymru megis Ymchwil ac Arloesi'r DU (UKRI). Yn ei dro, bydd hyn yn sicrhau'r cyfraniad y mae ein prifysgolion yn ei wneud i ffyniant economaidd a chymdeithasol Cymru a'r DU, a hefyd eu bri rhyngwladol. Boed yn genedlaethol neu'n rhanbarthol, rhaid i raglenni buddsoddi gydnabod a hybu cydweithio a phartneriaethau, ledled y DU ac yn rhyngwladol, yn ogystal â thros Gymru benbaladr.

Mae hefyd yn hanfodol nad yw'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn syml yn rhoi blaenoriaeth i drosi ymchwil, ond ei bod yn darparu cyllid i adeiladu capasiti hanfodol ar gyfer ymchwil a fydd, yn y tymor hir, yn sicrhau bod ymchwil yn cael mwy o effaith a bod mwy o drosi ymchwil yn digwydd. Er enghraifft, mae'r dadansoddiad yn Yr Achos dros Dyfu Capasiti Ymchwil STEMM yng Nghymru'n cyfleu'r ddadl dros ehangu capasiti'r sylfaen ymchwil yng Nghymru trwy fynd i'r afael â'r diffyg o ran niferoedd yr ymchwilwyr yng Nghymru i gynyddu gallu Cymru i gystadlu am fwy o gyllid ymchwil. Roedd y rhaglen Sêr Cymru gan Lywodraeth Cymru wedi'i bwriadu i wneud hyn a thrwy ddarparu cyllid llwyddodd i recriwtio talent ymchwil o bob rhan o'r byd i gynyddu niferoedd yr ymchwilwyr yng Nghymru mewn meysydd blaenoriaeth penodol gan gynnwys deunyddiau ynni, gwyddor amgylcheddol a biotechnoleg a gwyddorau bywyd. Mae Sêr Cymru wedi cael ei chefnogi gan CCAUC, Llywodraeth Cymru ac mae hefyd wedi cael ei chyllido gan y cronfeydd strwythurol trwy WEFO.

**Sut mae'r rhaglen Lluosi yn datblygu ar draws gwahanol rannau o Gymru? Beth yw'r rhwystrau a'r cyfleoedd posibl mewn perthynas â chyflwyno'r rhaglen hon?**

Nid yw CCAUC wedi bod yn rhan o gyflawni'r rhaglen Lluosi ac felly nid yw mewn sefyllfa i wneud sylwadau.

**Manylion cyswllt**

Ar gyfer unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn, gan gynnwys ceisiadau am ddata tanategol, cysylltwch â Harriet Barnes, Cyfarwyddwr Polisi a Chyllid, harriet.barnes@hefcw.ac.uk.

Yn gywir

**David Blaney**